Department for Environment Food & Rural Affairs

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Amddiffyn adar gwyllt: Ymgynghoriad am Ddiwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy’n caniatáu lladd neu gymryd rhai rhywogaethau penodol o adar gwyllt y tu allan i’w tymhorau caeedig

## Dogfen Ymgynghori

23 Mawrth 2026

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ni sy'n gyfrifol am wella ac amddiffyn yr amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o safon fyd-eang.

Rydym yn cydweithio'n agos â'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn fwy gwyrdd a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a chyfoethogi'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gwella cyflwr yr amgylchedd dros amser.

Llywodraeth yr Alban

Mae Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Choedwigaeth yn gweithio i warchod a chyfoethogi amgylchedd ac adnoddau naturiol yr Alban, gan ddarparu cefnogaeth wyddonol a sylfaen dystiolaeth integredig ar gyfer polisïau economaidd amgylcheddol a gwledig.

Rydym yn gyfrifol am:

- chwarae rhan lawn wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd byd-eang a chyfyngu'r cynnydd tymheredd i 1.5°C
- gwarchod ac adfer natur yn yr Alban gan sicrhau bod bioamrywiaeth yn ffynnu a bod aer, dŵr, moroedd a phriddoedd yn lân ac yn iach
- hybu pobl i ddefnyddio ac ailddefnyddio adnoddau mewn modd doeth i roi diwedd ar ddiwylliant taflu i ffwrdd
- diogelu a thyfu ein hasedau naturiol mewn economi gynaliadwy ffyniannus
- cefnogi cymdeithas decach, iachach a mwy cynhwysol mewn amgylchedd iach

Llywodraeth Cymru

Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth o fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd yn llywodraeth Cymru sy'n arwain gwaith llywodraeth Cymru i amddiffyn amgylchedd naturiol daearol a morol Cymru, ei adfer a'i reoli mewn modd cynaliadwy. Mae eu swyddogaeth yn cynnwys cyflawni ymrwymiadau Gweinidogion a'r Rhaglen Lywodraethu, darparu cyngor arbenigol ar draws y llywodraeth, a hybu rhaglenni sy'n cyfoethogi bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau.

Mae ein cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Arwain prif ymrwymiadau Gweinidogion a'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys adfer cynefinoedd a datblygu targedau bioamrywiaeth.
- Darparu cyngor ecolegol, gwyddonol a milfeddygol ar draws y llywodraeth, gan gynnwys ymateb i faterion iechyd bywyd gwyllt.

- Cyflawni rhaglenni pwysig i adfer natur, gan gynnwys Rhwydweithiau Natur, Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac Iechyd Gwenyn.

- Goruchwylio ac ariannu cynlluniau grantiau i gefnogi cadwraeth a gwydnwch ecosystemau ar draws y tir a'r môr.

- Cyfrannu tystiolaeth ac arbenigedd at feysydd polisi ehangach, gan gynnwys gwydnwch hinsawdd, diwygio ffermio a gosod targedau bioamrywiaeth dan y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang.

- Gweithio gyda phartneriaid cyflenwi gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol a grwpiau'r sector i gynnig cefnogaeth o ran adfer byd natur a'i reoli mewn modd cynaliadwy.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn destun hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn:

Tîm Troseddau a Rheoli Bywyd Gwyllt,

Defra, Seacole Building, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF

WildlifeManagementAndCrime@defra.gov.uk

## Cynnwys

1. Rhagarweiniad a throsolwg ....6

2. Sut i ymateb ....8

3. Cefndir ....11

4. Newidiadau sydd wedi'u cynnig i adran 2(4) ac Atodlen 2.1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ....12

A): Tynnu'r Ŵydd Dalcenwen Ewropeaidd oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru a Lloegr ....12

B): Tynnu'r Hwyaden Lygad-aur oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru a Lloegr ....14

Bi) Estyn Tymor Caeedig yr Hwyaden Lygad-aur ar Atodlen 2.1 yn yr Alban ....15

C): Estyn Tymor Caeedig yr Hwyaden Lostfain yng Nghymru a'r Alban ....17

Ci): Tynnu'r Hwyaden Lostfain oddi ar Atodlen 2.1 yn Lloegr ....18

D): Tynnu'r Hwyaden Bengoch oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ....20

E): Estyn Tymor Caeedig y Gïach Cyffredin yn Lloegr a'r Alban ....22

Ei) Tynnu'r Gïach Cyffredin oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru ....23

F) Estyn Tymor Caeedig y Cyffylog yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ....26

G) Ychwanegu yr Ysguthan at Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ....29

5. Newidiadau sydd wedi'u cynnig i Atodlen 2 Rhan 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru yn unig ....32

A) Tynnu'r Gwtiar oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru ....32

B) Tynnu'r Cwtiad Aur oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru ....33

6.1 A ydych yn meddwl y dylid tynnu unrhyw rywogaethau eraill oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban? ....35

6.2 A ddylid gwneud diwygiadau eraill (er enghraifft, estyn neu gwtogi tymor caeedig) mewn perthynas ag unrhyw rywogaethau eraill a restrir ar Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban? ....39

6.3 A ddylid *ychwanegu* unrhyw rywogaethau eraill at Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban? ....39

7 Beth sy'n digwydd nesaf? ....40

# 1. Rhagarweiniad a throsolwg

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw casglu safbwyntiau am newidiadau sydd wedi'u cynnig i Ran 1, Atodlen 2 (2.1) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (y Ddeddf). Mae Atodlen 2.1 yn amlinellu pa rywogaethau o adar gwyllt y caniateir eu lladd neu eu cymryd y tu allan i'r "tymor caeedig". Y tymor caeedig yw'r adeg o'r flwyddyn pan gaiff adar eu gwarchod i'w helpu i fridio a mudo, ac mae'n amrywio yn ôl rhywogaeth.

Ar hyn o bryd, mae Atodlen 2.1 yn rhestru 19 o rywogaethau adar gwyllt yng Nghymru a Lloegr a 23 o rywogaethau yn yr Alban. Hwyaid, gwyddau ac adar hirgoes yw'r rhain yn bennaf. Er bod y Ddeddf yn amddiffyn pob aderyn gwyllt, mae Atodlen 2.1 yn darparu eithriadau cyfyngedig sy'n caniatáu saethu'r rhywogaethau ar y rhestr hon y tu allan i'r tymor caeedig, yn bennaf at ddibenion saethu hamdden a chynaeafu.

Yn 2023, cynhaliodd Defra a Natural England (NE) adolygiad o'r warchodaeth a rown i'r rhywogaethau yn Atodlen 2.1 y Ddeddf yn Lloegr. Cynhaliwyd adolygiadau tebyg gan NatureScot ar ran llywodraeth yr Alban a gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar ran llywodraeth Cymru.

O ganlyniad i'r adolygiadau hyn, mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newidiadau i'r rhestr o rywogaethau dan Atodlen 2.1 y Ddeddf, fel y mae'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, i wneud mwy i warchod rhai o'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r newidiadau sydd wedi'u cynnig:

| Rhywogaeth | Lloegr | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|
| **Gŵydd dalcenwen Ewropeaidd** | Dileu o Atodlen 2.1 | Dim newid - mae eisoes wedi'i dileu o Atodlen 2.1 yr Alban | Dileu o Atodlen 2.1 |
| **Hwyaden lygad-aur** | Dileu o Atodlen 2.1 | Estyn y tymor caeedig | Dileu o Atodlen 2.1 |
| **Hwyaden lostfain** | Dileu o Atodlen 2.1 | Estyn y tymor caeedig | Estyn y tymor caeedig |
| **Hwyaden bengoch** | Dileu o Atodlen 2.1 | Dileu o Atodlen 2.1 | Dileu o Atodlen 2.1 |
| **Gïach cyffredin** | Estyn y tymor caeedig | Estyn y tymor caeedig | Dileu o Atodlen 2.1 |
| **Cyffylog** | Estyn y tymor caeedig | Estyn y tymor caeedig | Estyn y tymor caeedig |
| **Ysguthan** | Ychwanegu at Atodlen 2.1 | Ychwanegu at Atodlen 2.1 | Ychwanegu at Atodlen 2.1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwtiar** | Dim newid - cadw statws Atodlen 2.1 | Dim newid - cadw statws Atodlen 2.1 | Dileu o Atodlen 2.1 |
| **Cwtiad aur** | Dim newid - cadw statws Atodlen 2.1 | Dim newid - cadw statws Atodlen 2.1 | Dileu o Atodlen 2.1 |

Yn 2025, ar ôl cwblhau'r adolygiadau, sylwodd Gweinidogion llywodraeth y DU, llywodraeth yr Alban a llywodraeth Cymru ar y cyfle i gydweithio, ac i gynnig gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth ar y cyd â'r uchelgais o warchod rhywogaethau adar gwyllt sydd â phoblogaethau'n gostwng. Felly, mae'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn (sy'n ofyniad cyfreithiol cyn gwneud unrhyw newidiadau i Atodlen 2.1) wedi'i gyd-drefnu ar draws y tair llywodraeth. Mae hefyd yn ceisio lleihau'r baich ar randdeiliaid ym Mhrydain a fyddai fel arall o bosibl wedi gorfod ymateb i dri ymgynghoriad ar wahân gan dair llywodraeth ar wahân yn gofyn cwestiynau tra thebyg.

Mae llywodraeth yr Alban hefyd yn cynnig cyflwyno moratoria gwirfoddol ar saethu **grugieir yr Alban** (ledled yr Alban) a **phetris** (mewn ardaloedd lle mae poblogaethau yn yr Alban yn dal i fod yn isel a dim rhyddhau'n digwydd). Mae'r cynigion hyn yn dilyn model y moratoriwm gwirfoddol sy'n bodoli eisoes ar gyfer grugieir duon, sydd wedi llwyddo i raddau helaeth oherwydd cefnogaeth gref a pharhaus gan reolwyr tir sy'n ymroddedig i adfer poblogaethau agored i niwed. Fel dulliau blaenorol, bydd llwyddiant y mesurau gwirfoddol newydd hyn yn dibynnu ar ymrwymiad clir gan y sector. Bydd llywodraeth yr Alban yn ymgysylltu'n agos â rheolwyr tir i ganfod cefnogaeth i'r cynigion, a fydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddiannus.

Nid oes grugieir yr Alban yng Nghymru na Lloegr gan fod y rhywogaeth wedi bod yn ddiflanedig yn y cenhedloedd hyn ers canrifoedd; a chaniateir hela petris dan Adran 2 Deddf Helgig 1831 yng Nghymru a Lloegr yn hytrach na rhestriad Atodlen 2.1. Felly, nid oedd y ddwy rywogaeth hyn o fewn cwmpas yr adolygiad hwn yng Nghymru a Lloegr.

## Ar bwy y bydd y cynigion hyn yn effeithio?

Byddai'r newidiadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn saethu unrhyw un o'r rhywogaethau yn y rhestr uchod.

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar God Ymarfer Saethu Cynaliadwy Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain ar gyfer Rhywogaethau Ysglyfaeth Adar Gwyllt sy'n cynnwys ataliaeth wirfoddol ar gyfer rhywogaethau penodol, mesurau cadwraeth wedi'u targedu a chymryd rhan mewn mentrau i gasglu data a thystiolaeth.

# 2. Sut i ymateb

Bydd y cyfnod ymgynghori'n dechrau ar 23 Mawrth 2026 a bydd ar agor ar gyfer ymatebion am gyfnod o **8 wythnos**. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben am 23:59 ar 17 Mai 2026.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol i chi yn y ddogfen hon. Os oes gennych unrhyw safbwyntiau eraill am y pynciau sy'n destun yr ymgynghoriad hwn ac nad ydynt wedi cael sylw, mae croeso i chi ddarparu'r rhain yn y blwch testun agored ar ddiwedd eich ymateb.

Defnyddiwch y cyswllt hwn i ddarparu eich safbwyntiau ar lwyfan ymgynghori Defra, Citizen Space. Os na allwch ymateb ar Citizen Space a'ch bod yn dymuno cyflwyno ymateb ysgrifenedig, sicrhewch fod eich ymateb yn ymdrin â'r cwestiynau a amlinellwyd. Gellir e-bostio ymatebion ysgrifenedig i: WildlifeManagementAndCrime@defra.gov.uk neu eu hanfon i'r cyfeiriad isod:

Tîm Troseddau a Rheoli Bywyd Gwyllt,

Defra,

Seacole Building,

2 Marsham Street,

Llundain SW1P 4DF

## Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth

Mae sut yr ydym yn defnyddio eich data personol wedi'i amlinellu yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad a'r alwad am dystiolaeth, sydd ar gael yma https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-for-evidence-exercises-privacy-notice

**Gwybodaeth Arall**

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet sydd ar gael yn: Microsoft Word - Consultation Principles (1).docx (publishing.service.gov.uk)

Rhennir eich ymatebion â llywodraeth yr Alban a llywodraeth Cymru.

# Cyfrinachedd a chwestiynau amdanoch chi

**C 1. A hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?**

**o Hoffwn**

**o Na hoffwn**

| |
|---|
| |

Esboniwch eich rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd.

**C 2. Beth yw eich enw?**

**C 3. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?**

**C 4. Dywedwch wrthym pa fath o ymatebwr ydych chi, gan ddewis o blith y canlynol:** (Ticiwch gynifer ag sy’n berthnasol)

- Sefydliad lles anifeiliaid/amgylcheddol
- Sefydliad saethu
- Sefydliad anllywodraethol arall
- Aelod o’r cyhoedd
- Arall (Nodwch)
- Gwell gen i beidio â dweud

| |
|---|
| |

**C 5. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch enw’r sefydliad hwnnw. Os ydych yn ymateb ar ran mwy nag un sefydliad, dywedwch sawl sefydliad yr ydych yn eu cynrychioli a nodwch eu categori (fel yr amlinellwyd yn y cwestiwn blaenorol).**

**C 6. Os ydych yn fusnes, sut byddech yn disgrifio ei faint ar sail nifer y gweithwyr?**

- Micro (1 - 9 o gyflogeion)
- Bach (10 – 49 o gyflogeion)
- Canolig (50 - 249 o gyflogeion)
- Mawr (250+ o gyflogeion)
- Amherthnasol

**C 7. O ystyried y cynnig diwygio, a allwch roi unrhyw adborth am effeithiau ehangach ychwanegol ar fusnes, cystadleuaeth a masnach, gofynion sgiliau a hyfforddiant a buddsoddiad o fewn y sector?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 8. Os ydych yn Fusnes Bach a Micro (BBM) (hynny yw, 1-49 o gyflogeion), a allwch roi unrhyw wybodaeth am effeithiau'r diwygiad sydd wedi'i gynnig, gan gynnwys ar gostau ychwanegol?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 9. Os ydych yn fusnes maint canolig (50-249 o gyflogeion), a allwch roi unrhyw wybodaeth am effeithiau'r diwygiadau sydd wedi'u cynnig, gan gynnwys ar gostau ychwanegol?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 10. A ydych yn rhagweld y bydd y diwygiad sydd wedi'i gynnig yn effeithio'n wahanol ar wahanol ranbarthau yn y Deyrnas Unedig?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 11. Dewiswch ardal ddaearyddol eich sefydliad neu'r ardal y mae eich ymateb yn ymwneud â hi o blith y canlynol: (Ticiwch gynifer ag sy'n berthnasol)**

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Gweriniaeth Iwerddon
- Y DU
- Arall (nodwch ble os gwelwch yn dda)

# 3. Cefndir

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn i sicrhau bod rhai rhywogaethau penodol o adar gwyllt yn cael eu saethu mewn modd cynaliadwy nad yw'n tanseilio eu hadferiad. Roedd hyn yn unol â tharged toreithrwydd rhywogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i wella statws rhywogaethau dan fygythiad yn Lloegr erbyn 2042 ac atal gostyngiad rhywogaethau erbyn 2030; targedau llywodraeth yr Alban i atal colled bioamrywiaeth erbyn 2030 ac adfer ac ailgynhyrchu bioamrywiaeth erbyn 2045; ac amcanion Cymru fel y'u nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN), gan fod poblogaethau llawer o'r rhywogaethau ar Atodlen 2.1 yn gostwng ac i'w gweld ar restri blaenoriaeth cadwraeth, gan gynnwys Adar o Bryder Cadwraethol yn y DU (BoCC), a'r fersiwn diweddaraf yw'r BoCC5; y pedwerydd asesiad o Gymru gan Adar o Bryder Cadwraethol Cymru; a'r ail asesiad o Brydain Fawr ar gyfer Rhestri Coch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) (Rhestri Coch yr IUCN).

Comisiynodd llywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru eu Cyrff Cadwraeth Natur Statudol – NE, NatureScot, a CNC yn ôl eu trefn - i gynnal asesiad o bob rhywogaeth adar gwyllt sydd wedi'i rhestru ar Atodlen 2.1, i ganfod pa rai y gallai fod yn addas newid eu statws mewn perthynas â'r atodlen. Roedd hyn yn cynnwys rhywogaethau y gellid eu tynnu oddi ar Atodlen 2.1 a rhywogaethau a allai aros arni, ond y byddai'n bosibl addasu eu tymor caeedig – sydd wedi'i ddiffinio ar gyfer adar gwyllt penodol yn Adran 2(4) y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Yn yr ymarfer cwmpasu cychwynnol, nodwyd rhywogaethau sy'n mynd yn llai toreithiog ac sydd wedi'u rhestru fel Coch neu Ambr yn y BoCC5 neu'n cael eu hystyried mewn perygl o ddifodiant ar lefel Prydain Fawr, ac y byddai saethu'n gallu dylanwadu ar y siawns o adfer eu poblogaethau yng Nghymru/Lloegr/yr Alban. Cafodd y rhywogaethau a nodwyd ym mhob ymarfer cwmpasu cenedlaethol eu blaenoriaethu i fod yn destun craffu manwl pellach i ystyried a yw saethu'n cael effaith andwyol ar eu statws cadwraeth. Yna, cynhaliwyd asesiad ar sail tystiolaeth o'r rhywogaethau hynny gan ystyried: statws cadwraeth presennol; ecoleg (cynefin a deiet); ymddygiad a symudiadau mudo (ac amseru bridio); statws poblogaeth (toreithrwydd a dosbarthiad); tueddiadau poblogaeth a sbardunau newidiadau yn y boblogaeth (gan gynnwys effeithiau tebygol newid hinsawdd).

Ystyriodd y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol hefyd a fyddai'n fuddiol *ychwanegu* rhywogaethau at Atodlen 2.1.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i seilio ar y cyngor a'r argymhellion a gafwyd o ganlyniad i hyn gan NE, NatureScot a CNC. Ar gyfer rhai rhywogaethau y mae'n gyfreithlon eu gwerthu ar ôl eu lladd, mae gennym ddiddordeb hefyd mewn safbwyntiau a gwybodaeth ynglŷn â ffactorau economaidd. Nid yw'r diddordeb hwn yn berthnasol i'r ŵydd dalcenwen Ewropeaidd na'r hwyaden lygad-aur gan fod gwerthu eu cig wedi'i wahardd.

Os tynnir unrhyw rywogaeth oddi ar Atodlen 2.1 yn y pen draw yng Nghymru, Lloegr a/neu yr Alban, ystyrir yn y dyfodol a ddylid ei thynnu hefyd oddi ar Ran III Atodlen 3 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad sy'n rhestru'r rhywogaethau y caniateir eu gwerthu'n farw yn ystod tymhorau penodol.

# 4. Newidiadau sydd wedi'u cynnig i adran 2(4) ac Atodlen 2.1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

## A): Tynnu'r Ŵydd Dalcenwen Ewropeaidd oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru a Lloegr

Mae dwy o is-rywogaethau'r ŵydd dalcenwen yn gaeafu ym Mhrydain Fawr, sef yr ŵydd dalcenwen Ewropeaidd *Anser albifrons albifrons* a gŵydd dalcenwen yr Ynys Las *Anser albifrons flavirostris*. Mae gwyddau talcenwyn Ewropeaidd yn bridio ar dwndra Siberia. Ar ôl bridio, a chyfnod o fwrw plu, mae heidiau'n ymgasglu i fudo tua'r de i'w gaeafodau, gan adael y mannau bridio rhwng diwedd Awst a Medi a chyrraedd Prydain rhwng canol Medi a Rhagfyr. Mae mudo'n ôl yn dechrau'n gynnar ym mis Mawrth ac mae'r rhan fwyaf o wyddau wedi gadael safleoedd gaeafu ym Mhrydain erbyn diwedd Mawrth.

Yn ôl ymchwil (N.J. Aebischer, 2019)[1] roedd yr amcangyfrif o nifer y gwyddau talcenwyn Ewropeaidd a saethwyd yn y DU yn 2016 yn llai na chant.

Mae hon yn rhywogaeth Rhestr Goch dan BoCC5. Ystyrir ei bod yn wynebu risg o ddifodiant ym Mhrydain, yn bennaf oherwydd gostyngiad dramatig, hirdymor yn ei phoblogaeth aeafu. Asesir bod y boblogaeth ehangach ledled Ewrop yn sefydlog, ond mae monitro hirdymor wedi canfod gostyngiadau sylweddol mewn rhannau o'r DU, sy'n peri goblygiadau pwysig o ran cynnal statws cadwraeth y boblogaeth ledled gwledydd y DU. Mae'r ŵydd dalcenwen Ewropeaidd eisoes wedi cael ei thynnu oddi ar Atodlen 2.1 fel y mae'n berthnasol i'r Alban. **Felly, mae llywodraethau Cymru a'r DU yn cynnig tynnu'r ŵydd dalcenwen Ewropeaidd oddi ar Atodlen 2.1 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn ôl eu trefn.**

Cynigir ei thynnu oddi ar Atodlen 2.1 er mwyn:

a) helpu i leihau effaith saethu ar boblogaethau nad ydynt yn bridio sy'n gostwng.
b) amddiffyn (gan gynnwys rhag y posibilrwydd o saethu damweiniol) unigolion o'r boblogaeth o wyddau talcenwyn yr Ynys Las sydd mewn perygl yn fyd-eang ac sydd i'w cael, er nad oes llawer ohonynt, yn y DU ac sy'n gorfforol debyg.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Natural England yma cyswllt.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Cyfoeth Naturiol Cymru yma cyswllt.

**C 4A1: A ydych yn cytuno y dylid tynnu'r ŵydd dalcenwen Ewropeaidd oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru a/neu yn Lloegr?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Os "Ydw",

- Y ddwy wlad
- Lloegr yn unig

[1] Tueddiadau hanner can mlynedd bagiau hela adar a mamolion yn y DU, ac amcangyfrif wedi'i raddnodi o faint bagiau cenedlaethol, gan ddefnyddio Cyfrifiad Bagiau Helwriaeth Cenedlaethol GWCT, *European Journal of Wildlife Research* (2019) 65: 64 https://doi.org/10.1007/s10344-019-1299-x

- Cymru yn unig

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

| |
|---|
| |

**C 4A2: A allwch ddarparu tystiolaeth ddiweddarach o nifer y gwyddau talcenwyn Ewropeaidd a saethir yng Nghymru a/neu yn Lloegr?**

- Gallaf
- Na allaf

| |
|---|
| |

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

## B): Tynnu'r Hwyaden Lygad-aur oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru a Lloegr

Hwyaden blymio ganolig ei maint yw'r hwyaden lygad-aur (*Bucephala clangula)*. Mae'r gwrywod yn edrych yn arbennig o drawiadol. Mae'n bridio ar gynefinoedd dŵr croyw lle mae llawer o infertebratau ar gael, a chyflenwad o dyllau coed (neu flychau nythu artiffisial) i nythu ynddynt. Mae'n fridiwr prin yn y DU ac mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth fwy cyffredin sy'n gaeafu yma heb fridio yn tarddu o Sgandinafia. Mae'r adar sy'n gaeafu'n tueddu i ddechrau cyrraedd y DU ym mis Hydref ac yn cyrraedd eu niferoedd uchaf rhwng Ionawr a dechrau Chwefror. Maent yn tueddu i ddechrau allfudo ar ddechrau Mawrth a bydd y rhan fwyaf wedi gadael erbyn diwedd Ebrill.

Mae ymchwil gan Aebischer (2019) yn amcangyfrif bod 450 o hwyaid llygad-aur wedi'u saethu yn y Deyrnas Unedig yn 2016.

**Mae llywodraeth y DU a llywodraeth Cymru yn cynnig tynnu'r hwyaden lygad-aur oddi ar Atodlen 2.1 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn ôl eu trefn.**

Mae hon yn rhywogaeth Rhestr Goch dan BoCC5, oherwydd gostyngiad difrifol yn y boblogaeth aeafu dros 25 mlynedd (a'r prinder bridio), ond mae hefyd yn cael ei hystyried Mewn perygl o ddifodiant ym Mhrydain Fawr yn ôl IUCN. Mae monitro hirdymor yn dangos gostyngiad 58% ym mhoblogaeth aeafu'r DU ers dechrau'r 1990au, ac mae gostyngiadau sylweddol hefyd wedi'u cofnodi yn Lloegr (41% rhwng 1997/98 a 2022/23) ac yng Nghymru (55% rhwng 1995/96 a 2020/21).
Cynigir ei thynnu oddi ar Atodlen 2.1 er mwyn:

a) lleihau effaith bosibl hela ar y poblogaethau sy'n bridio a'r rhai nad ydynt yn bridio, ar sail yr egwyddor ragofalus, nes bod data mwy manwl gywir ar gael i ddangos y gellir rheoli saethu hamdden mewn modd cynaliadwy. Mae defnyddio'r egwyddor ragofalus yn ffordd o reoli risg lle ceir diffyg sicrwydd gwyddonol ynglŷn â difrifoldeb a thebygolrwydd unrhyw niwed posibl i'r amgylchedd.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Natural England yma cyswllt.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Cyfoeth Naturiol Cymru yma cyswllt.

Yn y cyfamser, mae llywodraeth yr Alban yn cynnig cadw'r hwyaden lygad-aur ar Atodlen 2.1 yn yr Alban, ond estyn ei thymor caeedig. Mae Adran 2(4)(c) y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn diffinio'r tymor caeedig ar gyfer hwyaid gwyllt o fewn neu uwchben unrhyw fan sydd o dan farc penllanw'r gorllanw cyffredin fel 21 Chwefror - 31 Awst.

## Bi) Estyn Tymor Caeedig yr Hwyaden Lygad-aur ar Atodlen 2.1 yn yr Alban

Bridiodd y rhywogaeth am y tro cyntaf yn yr Alban yn 1970 ac mae wedi ehangu drwy ddefnyddio nifer o flychau nythu yn Speyside ac mewn mannau eraill. Yr Alban yw cartref y mwyafrif o'r boblogaeth sy'n bridio – amcangyfrifwyd bod tua 200 o fenywod yn bridio yn 2010 – ac mae'r mwyafrif ar hyd y Great Glen, Strathspey a Swydd Aberdeen. Nid oes amcangyfrifon dibynadwy o'r boblogaeth sy'n bridio yn yr Alban ar hyn o bryd, ond mae newidiadau yn yr amrediad a gofnodwyd gan yr Atlas BTO diwethaf yn awgrymu y gallai fod yn sefydlog neu'n cynyddu.

**Mae llywodraeth yr Alban yn cynnig estyn tymor caeedig yr hwyaden lygad-aur i wahardd saethu cyn 1 Hydref yn hytrach nag 1 Medi** fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae gan hwyaid llygad-aur gyrhaeddiad gaeafu mawr ac mae'n ymddangos bod y boblogaeth fach sy'n bridio naill ai'n sefydlog neu'n cynyddu yn yr Alban oherwydd bod eu cyrhaeddiad wedi ehangu. Mae newidiadau i statws y boblogaeth ym Mhrydain Fawr wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i ostyngiadau mewn rhannau eraill o'r DU. Nid oes tystiolaeth bod saethu'n effeithio ar y rhywogaeth hon ac mae'r niferoedd sy'n cael eu saethu yn y DU yn gymharol fach, sy'n ategu'r casgliad bod eu saethu'n gynaliadwy ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o ystyried statws agored i niwed y rhywogaeth a phwysigrwydd y boblogaeth sy'n bridio yn yr Alban, byddai estyn y tymor caeedig tan 30 Medi yn lleihau'r risg o saethu adar preswyl cyn i'r boblogaeth fudol gyrraedd.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol NatureScot yma cyswllt.

**C 4B1: A ydych yn cytuno y dylid tynnu'r hwyaden lygad-aur oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru a/neu yn Lloegr?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Os "Ydw",

- Y ddwy wlad
- Lloegr yn unig
- Cymru yn unig

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 4B2: A ydych yn cytuno y dylid estyn tymor caeedig yr hwyaden lygad-aur ar Atodlen 2.1 yn yr Alban tan 30 Medi?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 4B3: A allwch ddarparu tystiolaeth ddiweddarach o nifer yr hwyaid llygad-aur a saethir yng Nghymru, Lloegr a/neu yr Alban?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

# C): Estyn Tymor Caeedig yr Hwyaden Lostfain yng Nghymru a'r Alban

Mae'r hwyaden lostfain (*Anus actua*) yn hwyaden drochi ymfudol iawn sy'n gaeafu'n eang ledled y DU, gan ffafrio aberoedd, gwlyptiroedd arfordirol, a chorsydd pori boddedig. Mae'r adar sy'n gaeafu ym Mhrydain ac Iwerddon yn tarddu o ardaloedd bridio ledled Gwlad yr Iâ, Ffenosgandia a gorllewin Siberia. Mae tua 20,000 o adar yn gaeafu yn y DU, *a llai na 30 o barau'n bridio'n genedlaethol*, sydd bron i gyd yn yr Alban; mae'r rhywogaeth wedi cael asesiad bridio Mewn Perygl Critigol ar Restr Goch yr IUCN ym Mhrydain Fawr. Mae'r rhywogaeth wedi'i nodi'n Ambr dan BoCC5 oherwydd y gostyngiad cymedrol hirdymor yn eu cyrhaeddiad bridio, y boblogaeth fach sy'n bridio yn y DU, bridio lleoledig a phwysigrwydd rhyngwladol y boblogaeth.

Mae data'r Arolwg Adar Gwlyptir yn awgrymu *cynnydd sylweddol hirdymor ym mhoblogaeth aeafu'r Alban* o gymharu â gostyngiad 10% ar lefel y DU yn gyffredinol. Mae'r boblogaeth sy'n bridio yn yr Alban, sef amcangyfrif o 28 pâr (cymedr pum mlynedd) wedi amrywio o gwmpas y niferoedd hyn dros y deg mlynedd diwethaf. Mae'r sbardunau newid poblogaeth yn anhysbys ond mae ffactorau fel ecoleg bwydo, lefelau dŵr, aflonyddwch a chynhyrchedd bridio i gyd wedi cael eu hawgrymu.

Yng Nghymru, ymwelwyr dros y gaeaf yw hwyaid llostfain yn bennaf; mae'r rhywogaeth nawr yn cael ei hystyried yn aderyn nad yw'n bridio ar ôl ymdrechion anfynych yn unig i fridio. Gostyngodd y niferoedd gaeafu yn sylweddol ar ôl dechrau'r 2000au, gan adlewyrchu'r gostyngiad ledled y DU. Mae'r hwyaden lostfain wedi'i rhestru fel Ambr o dan Adar o Bryder Cadwraethol Cymru.

Er nad yw llywodraethau Cymru na'r DU yn ystyried bod y cynhaeaf presennol yn anghynaliadwy ar raddfa'r DU, mae ansicrwydd yn parhau oherwydd prinder cofnodion bagiau a maint bach y boblogaeth sy'n bridio yn y DU.

Yn ôl amcangyfrifon, saethwyd tua 680 o hwyaid llostfain yn y DU yn 2016 (Aebischer, 2019).

Mae llywodraeth Cymru a llywodraeth yr Alban yn cynnig estyn tymor caeedig hwyaid llostfain er mwyn:

- Lleihau'r siawns o saethu unigolion o'r boblogaeth fach, mewn perygl critigol, sy'n bridio yn y DU. Bydd estyn y tymor caeedig yn lleihau'r risg o saethu adar preswyl cyn i'r boblogaeth fudol gyrraedd.
- Cynorthwyo â chadwraeth y rhywogaeth yn unol ag asesiad cyffredinol y boblogaeth **Mewn Perygl Critigol** gan IUCN Prydain Fawr a'i statws **Ambr** BoCC5.
- Defnyddio'r egwyddor ragofalus o ystyried gostyngiadau hirdymor yn y niferoedd sy'n gaeafu yng Nghymru a'r DU; a

- Sicrhau bod pwysau saethu, lle mae'n digwydd, yn digwydd yn ystod y cyfnod pan mae'r boblogaeth wedi'i dominyddu gan fudwyr cyfandirol yn hytrach na bridwyr brodorol.

Yn **yr Alban**, mae hwyaid llostfain yn ysglyfaeth gyfreithlon y tu allan i'r tymor caeedig, sef 21 Chwefror tan 31 Awst (o dan y marc penllanw) ac 1 Chwefror tan 31 Awst (uwchlaw'r marc penllanw).

**Mae llywodraeth yr Alban yn cynnig estyn tymor caeedig yr hwyaden lostfain o dan ac uwchlaw'r marc penllanw i 30 Medi, gan wahardd saethu cyn 1 Hydref yn hytrach nag 1 Medi**.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol NatureScot yma cyswllt.

**Mae llywodraeth Cymru yn cynnig estyn tymor caeedig hwyaid llostfain tan 30 Tachwedd yng Nghymru.**

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Cyfoeth Naturiol Cymru yma cyswllt.

## Ci): Tynnu'r Hwyaden Lostfain oddi ar Atodlen 2.1 yn Lloegr

**Mae dau wahanol gynnig ar gyfer Lloegr.**

Argymhelliad Natural England i lywodraeth y DU oedd y dylid cadw statws presennol yr hwyaden lostfain ar Atodlen 2.1 heb ei newid yn Lloegr; yn ôl eu hasesiad, byddai'r budd i ddyfodol y rhywogaeth o'i thynnu oddi ar y rhestr yn ddibwys gan nad yw pwysau saethu/hela yn debygol o fod yn un o'r prif sbardunau i unrhyw ostyngiad yn ei phoblogaeth. Gellir canfod cyngor gwyddonol Natural England yma cyswllt.

**Mae llywodraeth y DU yn ymwybodol, fodd bynnag, o safbwynt croes sy'n dadlau bod poblogaeth fridio'r hwyaden lostfain yn Lloegr mor fach nes y dylid ei thynnu oddi ar Atodlen 2.1 fel mesur rhagofalus.** Mae llywodraeth y DU yn defnyddio'r ymgynghoriad hwn fel modd o brofi'r safbwynt hwn.

**C 4C1: A ydych yn cytuno y dylid estyn tymor caeedig yr hwyaden lostfain yn yr Alban tan 30 Medi o dan ac uwchlaw'r marc penllanw?**

| |
|---|
| |

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 4C2: A ydych yn cytuno y dylid estyn tymor caeedig yr hwyaden lostfain yng Nghymru tan 30 Tachwedd?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

| |
|---|
| |

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 4C3: A ydych yn cytuno y dylid tynnu'r hwyaden lostfain oddi ar Atodlen 2.1 yng yn Lloegr?**

- Ydw
- Nac ydw – dylid cadw ei statws presennol
- Ddim yn gwybod

| |
|---|
| |

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 4C4: A allwch ddarparu tystiolaeth ddiweddarach o nifer yr hwyaid llostfain a saethir yng Nghymru, Lloegr a/neu yr Alban?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

| |
|---|
| |

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 4C5: A allwch ddarparu tystiolaeth am gyfran a chyrchfan (er enghraifft, bwyta domestig preifat, gwerthu, eu rhoi i drydydd partïon, ac ati) hwyaid llostfain a saethir?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 4C6: A allwch ddarparu tystiolaeth ynglŷn â phris hwyaid llostfain ar y farchnad, wrth gyfanwerthu ac adwerthu?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

## D): Tynnu'r Hwyaden Bengoch oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

Mae'r hwyaden bengoch (*Aythya ferina*) yn hwyaden blymio hollysol sy'n bridio ar amrywiaeth o ddyfroedd tawel llonydd ac araf. Yn y gaeaf, mae niferoedd mawr o hwyaid pengoch yn cyrraedd Prydain ar ôl bridio mewn gwledydd ledled gogledd a dwyrain Ewrop ac i mewn i Rwsia, gan ymuno â'r niferoedd cymharol fach o hwyaid pengoch sy'n preswylio ym Mhrydain yn bennaf.

Ystyrir bod y rhywogaeth hon "Mewn Perygl" ym Mhrydain o dan yr asesiad IUCN, ac mae ar y rhestr goch o dan BoCC5 oherwydd yr asesiad hwn, yn ogystal â ffactorau eraill gan gynnwys gostyngiadau difrifol yn y boblogaeth nad yw'n bridio yn y DU dros 25 mlynedd a gostyngiadau cymedrol dros y tymor hirach, a gostyngiadau cymedrol yn y boblogaeth sy'n bridio dros y ddau gyfnod.

Mae monitro hirdymor wedi canfod gostyngiadau sylweddol yn y DU, ac mae tueddiadau tebyg tuag i lawr i'w gweld ym mhob gwlad yn y DU gan gynnwys gostyngiad 64% yn y boblogaeth nad yw'n bridio yn Lloegr dros gyfnod 25 mlynedd (1995/96 i 2020/21). Amcangyfrifir bod y boblogaeth sy'n bridio yn y DU yn 720 pâr a bod poblogaeth eithriadol o fach yn bridio yn yr Alban – tua dau i bedwar pâr yn bridio.

**Mae llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban yn cynnig tynnu'r hwyaden bengoch oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.**

Mae ymchwil gan Aebischer (2019) yn amcangyfrif bod 370 o hwyaid pengoch wedi'u saethu yn y DU yn 2016.

Cynigir ei thynnu oddi ar Atodlen 2.1 er mwyn:

a) lleihau unrhyw effaith gan saethu ar boblogaethau'r DU sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio ac sy'n gostwng yn gyflym, ac ym Mhrydain Fawr ar y poblogaethau bach 'Agored i Niwed' sy'n bridio ac 'Mewn Perygl' sydd ddim yn bridio, sy'n gostwng yn gymedrol.
b) Cydymffurfio ag ymrwymiadau'r DU fel llofnodwr i'r Cytundeb ar Gadwraeth Adar Dŵr Ymfudol Affrica-Ewrasia (AEWA). O dan y Cytundeb, mae Partïon y Contract wedi ymrwymo i atal hela'r hwyaden bengoch oherwydd ei statws cadwraeth agored i niwed. Mae'r DU wedi'i heithrio o'r rhwymedigaeth hon ar hyn o bryd oherwydd hen neilltuad Undeb Ewropeaidd. Mae'r Iseldiroedd a'r Weriniaeth Tsiec wedi codi'r neilltuad hwn.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Natural England yma cyswllt.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol NatureScot yma[cyswllt.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Cyfoeth Naturiol Cymru yma cyswllt.

**C 4D1: A ydych yn cytuno y dylid tynnu'r hwyaden bengoch oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr a/neu yr Alban?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Os "Ydw",

- Pob un o'r tair gwlad
- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru

| |
|---|
| |

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 4D2: A allwch ddarparu tystiolaeth ddiweddarach o nifer yr hwyaid pengoch a saethir yng Nghymru, Lloegr a/neu yr Alban?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 4D3: A allwch ddarparu tystiolaeth am gyfran a chyrchfan (er enghraifft, bwyta domestig preifat, gwerthu, eu rhoi i drydydd partïon, ac ati) hwyaid pengoch a saethir?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 4D4: A allwch ddarparu tystiolaeth ynglŷn â phris hwyaid pengoch ar y farchnad, wrth gyfanwerthu ac adwerthu?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

## E): Estyn Tymor Caeedig y Gïach Cyffredin yn Lloegr a'r Alban

Mae'r gïach cyffredin (*Gallinago gallinago*) yn aderyn hirgoes a hirbig sy'n bridio ledled Prydain. Mae giachod yn ffafrio cynefinoedd corsiog, siglennog, yn enwedig wrth fridio, a byddant yn defnyddio amrywiaeth eang o ddolydd gwlyb a chorsydd, gweundiroedd a rhostiroedd pori os yw eu hamodau'n addas.

Mae'r gïach cyffredin yn rhywogaeth Rhestr Ambr yn yr asesiadau BoCC5 ac ystyrir bod y boblogaeth nad yw'n bridio yn 'Agored i Niwed' yn asesiad diwethaf IUCN Prydain Fawr oherwydd lleihad (30-50%) ym maint eu poblogaeth o 1995/96 i 2020/21.  Yn yr hydref, bydd giachod o ogledd Ewrop yn ymuno â'r adar preswyl sy'n bridio yma.

Mae ymchwil gan Aebischer (2019) yn amcangyfrif bod 85,000 o giachod cyffredin wedi'u saethu yn y DU yn 2016.

Mae Adran 2(4)(b) y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn diffinio'r tymor caeedig ar gyfer giachod cyffredin fel 1 Chwefror - 11 Awst. Mae gan y rhywogaeth hon dymor bridio hir (o ddiwedd Mawrth tan ganol Awst), felly mae'r risg yn uchel y bydd gan adar a saethir ym mis Awst a Medi epil sy'n ddibynnol arnynt. Mae saethu adar yn y sefyllfa hon yn groes i egwyddorion 'defnydd doeth/cynaliadwy' o boblogaethau adar yn gyffredinol ac o adar dŵr ymfudol yn arbennig. Mae nifer o gytundebau amlochrog rhyngwladol i gyd yn nodi na ddylai hela hamdden ddigwydd yn ystod cyfnodau mudo cyn paru a chyfnodau bridio rhywogaethau ysglyfaeth.

**Mae llywodraethau'r DU a'r Alban yn cynnig estyn tymor caeedig y gïach cyffredin yn Lloegr a'r Alban yn ôl eu trefn i wahardd saethu cyn 30 Medi yn hytrach nag 12 Awst** ac mae'r cynnig hwn wedi'i seilio ar resymau lles anifeiliaid yn ogystal â chadwraeth rhywogaethau.

Byddai'r newid hwn yn gwneud mwy i warchod y rhywogaeth drwy:

a) leihau'r posibilrwydd bod hela'n effeithio ar y boblogaeth sy'n bridio yn Lloegr a'u hepil, sy'n bennaf yn breswyl ac sy'n gostwng
b) helpu i adfer y boblogaeth sy'n bridio
c) sicrhau gwarchodaeth barhaus a lleihau'r risg i'r boblogaeth breswyl sy'n bridio yn yr Alban

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Natural England yma cyswllt.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol NatureScot yma cyswllt.

Yn y cyfamser, mae llywodraeth Cymru yn cynnig tynnu'r gïach cyffredin oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru.

## Ei) Tynnu'r Gïach Cyffredin oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru

Mae'r DU yn cynnal amcangyfrif o 66,500 o barau sy'n bridio o'r gïach cyffredin, a thua miliwn o unigolion sy'n gaeafu. Yng Nghymru, mae'r boblogaeth sy'n bridio'n llawer llai; yr amcangyfrif yw **1,100 o barau** ac mae tystiolaeth yn dangos gostyngiadau hirdymor mewn safleoedd iseldir ac ucheldir.

Mae'r gïach wedi'i restru fel Ambr o dan Adar o Bryder Cadwraethol yn y DU a Chymru ac wedi'i asesu fel Agored i Niwed ar Restr Goch yr IUCN ym Mhrydain Fawr. Mae'r

boblogaeth sy'n gaeafu yn y DU wedi gostwng 37% dros 25 mlynedd, ond mae'r niferoedd sy'n gaeafu yng Nghymru'n dangos mwy o amrywioldeb.

Er bod cynhaeaf swmpus y gïach cyffredin yn cael ei ystyried yn gynaliadwy ar raddfa'r DU, mae diffyg cywirdeb wrth gofnodi bagiau a maint bach y boblogaeth sy'n bridio yng Nghymru yn creu ansicrwydd. Mae saethu'n gynnar yn y tymor yn peri mwy o risg i adar preswyl gan fod y rhan fwyaf o adar mudol yn cyrraedd yn ddiweddarach yn yr hydref.

**Felly, mae llywodraeth Cymru yn cynnig tynnu'r gïach cyffredin oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru.**

Cynigir ei thynnu oddi ar Atodlen 2 er mwyn:

- lleihau'r siawns o saethu adar preswyl sy'n bridio a'u hepil, o ystyried bod y **boblogaeth sy'n bridio yng Nghymru yn fach ac yn gostwng**;
- defnyddio'r egwyddor ragofalus yng ngoleuni gostyngiadau hirdymor o ran dosbarthiad bridio, pwysau cynefin cysylltiedig â hinsawdd, a phrinder data monitro; a
- helpu i adfer poblogaethau sy'n bridio ar y cyd â mesurau ehangach i reoli cynefinoedd.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Cyfoeth Naturiol Cymru yma cyswllt.

**C 4E1: A ydych yn cytuno y dylid estyn tymor caeedig y gïach cyffredin yn Lloegr a/neu yr Alban tan 30 Medi, am resymau'n ymwneud â chadwraeth a lles anifeiliaid?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Os "Ydw",

- Y ddwy wlad
- Lloegr yn unig
- Yr Alban yn unig

| |
|---|
| |

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 4E2: A ydych yn cytuno y dylid tynnu'r gïach cyffredin oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru?**

- Ydw

- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 4E3: A allwch ddarparu tystiolaeth ddiweddarach o nifer y giachod cyffredin a saethir yng Nghymru, Lloegr a/neu yr Alban?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 4E4: A allwch ddarparu tystiolaeth am gyfran a chyrchfan (er enghraifft, bwyta domestig preifat, gwerthu, eu rhoi i drydydd partïon, ac ati) giachod cyffredin a saethir?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 4E5: A allwch ddarparu tystiolaeth ynglŷn â phris giachod cyffredin ar y farchnad, wrth gyfanwerthu ac adwerthu?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

## F) Estyn Tymor Caeedig y Cyffylog yng Nghymru, Lloegr a’r Alban

Mae’r cyffylog (*Scolopax rusticola*) yn aderyn hirgoes nosol yn bennaf sy’n bridio fel rheol mewn coetiroedd â haen ddatblygedig o isdyfiant llwyni. Mae’n defnyddio ei big hir i chwilio am amrywiaeth eang o ysglyfaethau di-asgwrn-cefn ar y ddaear. Oherwydd ei natur ddi-ddal a’i hedfan igam-ogam, mae’r cyffylog yn cael ei drysori fel ysglyfaeth am yr her mae’n ei chyflwyno i saethwyr.

Yn yr hydref a’r gaeaf, mae’r boblogaeth breswyl Brydeinig sydd ar y Rhestr Goch – yr amcangyfrif yw 50,750 o wrywod yn bridio – yn cael ei hategu gan tua miliwn o gyffylogod ‘mewnfudol’ sy’n hedfan i mewn o ogledd Ewrop. Maent yn cyrraedd rhwng mis Hydref a Rhagfyr, gan ddibynnu ar y tywydd. Ar lefel fyd-eang, nid yw’r cyffylog mewn perygl ac ystyrir bod y rhywogaeth yn destun y “pryder lleiaf”.

Mae ymchwil gan Aebischer (2019) yn amcangyfrif bod 140,000 o gyffylogod wedi’u saethu yn y DU yn 2016, ac yn 2019 (**ymchwil heb ei gyhoeddi).**

Tymor saethu’r cyffylog ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr yw 1 Hydref – 31 Ionawr.

**Mae llywodraethau Cymru a’r DU yn cynnig estyn y tymor caeedig, sy’n diweddu ar hyn o bryd ar 30 Medi, tan 30 Tachwedd fel y mae’n berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn ôl eu trefn.**

Yn yr Alban, tymor saethu’r cyffylog ar hyn o bryd yw 1 Medi – 31 Ionawr.

**Mae llywodraeth yr Alban yn cynnig estyn y tymor caeedig, sy’n diweddu ar hyn o bryd ar 31 Awst, tan 14 Tachwedd yn yr Alban**. Bydd y tymor caeedig yn yr Alban yn dal i ddiweddu’n gynharach nag yng ngweddill y DU oherwydd bod adar mudol yn cyrraedd yn gynharach.

Dylai estyn y tymor caeedig yn y modd a gynigir leihau’r siawns bod unrhyw adar a saethir yn adar preswyl prin sy’n bridio ym Mhrydain, gan y byddai cyfran lawer fwy o boblogaeth y cyffylogod sy’n bresennol ym Mhrydain ar yr adeg hon o’r flwyddyn yn adar mudol.

Mae’r cyffylog yn rhywogaeth Rhestr Goch o dan Adar o Bryder Cadwraethol yn y DU a Chymru, sy’n golygu bod cadwraeth y rhywogaeth hon yn flaenoriaeth uchel. Hefyd, mae cyffylogod sy’n bridio ar Restr Goch IUCN Prydain Fawr fel ‘Agored i Niwed’ ac ystyrir eu bod yn wynebu risg difodiant.

Amcangyfrifir bod cyfanswm nifer y gwrywod sy'n bridio yn Lloegr wedi gostwng 22.5% rhwng 2003 a 2023[2]. Gostyngodd y boblogaeth sy'n bridio yng Nghymru 36% dros yr un cyfnodau arolygu. Nid oes amcangyfrifon dibynadwy o duedd y boblogaeth nad yw'n bridio yn y DU na Chymru.

Byddai'r diwygiad sydd wedi'i gynnig yn helpu i warchod y boblogaeth breswyl sy'n bridio ym Mhrydain drwy:

a) leihau'r posibilrwydd bod hela'n effeithio ar y boblogaeth sy'n bridio yn Lloegr, sy'n bennaf yn breswyl ac sy'n gostwng.
b) cynorthwyo â chadwraeth y rhywogaeth yn unol â'i asesiad **Agored i Niwed** gan IUCN Prydain Fawr a'i statws **Rhestr Goch** Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru a'r DU
c) lleihau'r siawns bod unrhyw adar a saethir yn adar preswyl Prydeinig gan y byddai cyfran lawer fwy o'r boblogaeth ym Mhrydain ar yr adeg hon o'r flwyddyn yn adar mudol.

Bwriad y cynnig hwn yw cryfhau'r moratoriwm gwirfoddol ar saethu cyffylogod cyn mis Rhagfyr, sydd eisoes yn cael ei hybu ar raddfa eang gan aelodau o'r gymuned saethu.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Natural England yma cyswllt.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Cyfoeth Naturiol Cymru yma cyswllt.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol NatureScot yma cyswllt.

**C 4F1: A ydych yn cytuno y dylid estyn tymor caeedig y cyffylog yng Nghymru a/neu yn Lloegr tan 30 Tachwedd er mwyn gwarchod ein poblogaeth frodorol sy'n bridio?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Os "Ydw",

- Y ddwy wlad

[2] Hoodless et al. 2009; Heward et al. 2015, 2024

- Lloegr yn unig
- Cymru yn unig

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 4F2: A ydych yn cytuno y dylid estyn tymor caeedig y cyffylog yn yr Alban tan 14 Tachwedd er mwyn gwarchod ei boblogaeth frodorol sy'n bridio?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 4F3: A allwch ddarparu tystiolaeth ddiweddarach o nifer y cyffylogod a saethir yng Nghymru, Lloegr a/neu yr Alban?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 4F4: A allwch ddarparu tystiolaeth am gyfran a chyrchfan (er enghraifft, bwyta domestig preifat, gwerthu, eu rhoi i drydydd partïon, ac ati) cyffylogod a saethir?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 4F5: A allwch ddarparu tystiolaeth ynglŷn â phris cyffylogod ar y farchnad, wrth gyfanwerthu ac adwerthu?**

- Gallaf
- Na allaf
- Ddim yn gwybod

| |
|---|
| |

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

## G) Ychwanegu yr Ysguthan at Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

Mae poblogaeth ysguthanod Prydain yn breswyl ac anfudol gan mwyaf. Mae'n aderyn cyffredin ledled y rhan fwyaf o Brydain ac mae setiau data[3] yn dangos cynnydd 36% mewn toreithrwydd bridio ers 1995.

Saethir niferoedd mawr o ysguthanod. Mae ymchwil gan N.J. Aebischer (2019) yn amcangyfrif bod 1,900,000 o ysguthanod wedi'u saethu yn y DU yn 2016. Yn ddamcaniaethol, mae'r holl saethu ysguthanod sy'n digwydd yn Lloegr yn cael ei gyflawni dan drwydded gyffredinol 42 (GL42); yn yr Alban dan drwydded gyffredinol GL02; ac yng Nghymru dan drwydded gyffredinol GL001 i atal difrod i gnydau. Mae trwyddedau cyffredinol yn galluogi pobl i wneud gweithgareddau – megis saethu marwol – a fyddai'n anghyfreithlon fel arall ar rywogaethau a warchodir gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 heb fod angen gwneud cais am drwydded unigol. Nid oes angen i'w defnyddwyr wneud cais am drwyddedau cyffredinol, ond rhaid iddynt ufuddhau i'w hamodau. Mae GL42, GL02 a GL001 yn caniatáu rheolaeth drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys yn ystod tymor bridio'r ysguthan, sy'n golygu nad oes angen i helwyr feddwl rhyw lawer am y posibilrwydd bod epil dibynnol yn y nyth.

Mae digonedd o dystiolaeth i awgrymu bod rhai ysguthanod yn cael eu saethu ar gyfer adloniant a/neu fwyd yn hytrach nag yn benodol i warchod cnydau.

Mae llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban i gyd yn cynnig y dylid gwahaniaethu'n gyfreithiol rhwng hela ysguthanod ar gyfer adloniant a chynaeafu ar gyfer bwyd, a'u rheoli i

[3] Ymddiriedolaeth Adareg Prydain

leihau difrod i gnydau. Gellir gwneud y gwahaniaeth hwn drwy ychwanegu'r ysguthan at Ran I Atodlen 2 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad a drwy ddarparu tymor caeedig priodol yn adran 2(4) i roi rhyw amddiffyniad ar sail lles anifeiliaid i'r rhywogaeth yn ystod ei thymor bridio.

Er na fydd cyflwyno tymor caeedig yn rhoi diwedd ar yr arfer o saethu yn y tymor bridio (nac yn dileu canlyniadau lles andwyol i epil dibynnol o ladd adar llawn dwf yn ystod y cyfnod hwn), bydd yn atgyfnerthu'r gwahaniaeth rhwng camau sy'n angenrheidiol er mwyn rheoli difrod difrifol, a hela adloniadol. Dim ond y cyntaf o'r rhain fydd yn dderbyniol yn y tymor bridio ac rydym yn disgwyl y bydd cyflwyno tymor caeedig yn arwain at lai o hela adloniadol yn ystod y tymor bridio.

**Felly, mae llywodraethau Cymru, y DU a'r Alban yn cynnig ychwanegu'r ysguthan at Atodlen 2.1 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ôl eu trefn, â thymor caeedig o 1 Chwefror tan 31 Awst.** Byddai hyn yn cyflwyno darpariaeth gyfreithiol i saethu'r rhywogaeth hon at ddibenion adloniant neu gynaeafu. Er nad oes gan lywodraeth Cymru, llywodraeth y DU na llywodraeth yr Alban gynlluniau i ddileu GL001, GL42, na GL02, yn ôl eu trefn rydym yn credu bod cyflwyno tymor caeedig ar gyfer ysguthanod yn hybu safonau uwch o ran lles anifeiliaid; gan ragweld y saethir llai o adar llawn dwf ar adeg pan fydd ganddynt epil dibynnol.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Natural England yma cyswllt.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol NatureScot yma cyswllt.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Cyfoeth Naturiol Cymru yma cyswllt.

**C 4G1: A ydych yn cytuno ag ychwanegu'r ysguthan at Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr a/neu yr Alban?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Os "Ydw",

- Pob un o'r tair gwlad
- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru

Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb

**C 4G2: A allwch ddarparu tystiolaeth ddiweddarach o nifer yr ysguthanod a saethir yng Nghymru, Lloegr a/neu yr Alban?**

- Gallaf
- Na allaf

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 4G3: A allwch ddarparu tystiolaeth am gyfran a chyrchfan (er enghraifft, bwyta domestig preifat, gwerthu, eu rhoi i drydydd partïon, ac ati) ysguthanod a saethir?**

- Gallaf
- Na allaf

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

**C 4G4: A allwch ddarparu tystiolaeth ynglŷn â phris ysguthanod ar y farchnad, wrth gyfanwerthu ac adwerthu?**

- Gallaf
- Na allaf

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

# 5. Newidiadau sydd wedi'u cynnig i Atodlen 2 Rhan 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru yn unig

## A) Tynnu'r Gwtiar oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru

Mae'r gwtiar (*Fulica atra*) yn aderyn dŵr cyffredin sy'n bridio ledled y DU ar ddyfroedd croyw llonydd ac araf. Yn y gaeaf, mae adar o ogledd-orllewin Ewrop yn ymuno ag unigolion preswyl Cymru (a Phrydain yn fwy eang) gan arwain at niferoedd brig rhwng Hydref a Rhagfyr. Mae'r rhywogaeth yn anghrwydr yn bennaf, ac mae llawer o unigolion yn aros yn yr un safleoedd, neu'n agos atynt, drwy gydol y flwyddyn.

Mae poblogaethau'r gwtiar sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio wedi'u hasesu'n Agored i Niwed ar Restr Goch IUCN Prydain Fawr, ac ar Restr Ambr Adar o Bryder Cadwraethol Cymru oherwydd gostyngiadau hirdymor o ran bridio. Mae monitro'n dangos gostyngiad 28% ym mhoblogaeth aeafu'r DU dros 25 mlynedd, (1997/98-2022/23) a gostyngiad mwy, sef 35%, yng Nghymru dros yr un cyfnod.

Er bod y gwtiar yn rhywogaeth ysglyfaeth gyfreithlon, anaml y mae'n cael ei chymryd, ac nid oes amcangyfrif bag ar lefel y DU ar gael. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod unrhyw gwtiar a saethir yn debygol o ddod o'r boblogaeth breswyl sy'n bridio, gan mai yr un unigolion yn bennaf yw'r adar preswyl a'r adar sy'n gaeafu. Er bod pwysau saethu'n isel, mae'r dirywiad yn y statws cadwraeth yn dangos y byddai'n briodol defnyddio'r egwyddor ragofalus yng Nghymru.

**Felly, mae llywodraeth Cymru yn cynnig tynnu'r gwtiar oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru.**

Cynigir ei thynnu oddi ar Atodlen 2 er mwyn:

- lleihau'r posibilrwydd bod hela'n effeithio ar y poblogaethau sy'n bridio ac yn gaeafu yn y DU ac yng Nghymru, sy'n gostwng;
- cynorthwyo â chadwraeth y rhywogaeth yn unol â'i hasesiad **Agored i Niwed** gan IUCN Prydain Fawr a'i statws **Ambr** Adar o Bryder Cadwraethol Cymru.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Cyfoeth Naturiol Cymru yma cyswllt.

Yn y cyfamser, nid yw Natural England na NatureScot yn argymell newid statws Atodlen 2 y gwtiar yn Lloegr na'r Alban oherwydd y diffyg pwysau saethu ar y rhywogaeth.

**C 5A1: A ydych yn cytuno y dylid tynnu'r gwtiar oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 5A2: A ydych yn cytuno na ddylid newid statws Atodlen 2.1 y gwtiar, ond ei gadw fel y mae, yn Lloegr a/neu yn yr Alban?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 5A3: A allwch ddarparu tystiolaeth ddiweddarach o nifer y cwtieir a saethir yng Nghymru?**

- Gallaf
- Na allaf

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

## B) Tynnu'r Cwtiad Aur oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru

Mae'r cwtiad aur (*Pluvialis apricaria*) yn aderyn hirgoes rhannol ymfudol sy'n bridio ar rostir grug ucheldirol, gorgorsydd a glaswelltir asidig ledled Prydain; mae adar sy'n gaeafu'n gyffredin mewn cynefinoedd arfordirol, aberoedd a thir ffermio iseldirol. Yn y gaeaf, mae

poblogaeth y DU yn cynnwys bridwyr preswyl a mudwyr o Sgandinafia, Gwlad yr Iâ a gorllewin Siberia.

Mae'r DU yn cynnal amcangyfrif o 32,500–50,500 o barau sy'n bridio, a thua 400,000 o unigolion sy'n gaeafu. Yng Nghymru, mae'r boblogaeth sy'n bridio wedi dioddef gostyngiad difrifol a hirdymor, gan ostwng o 250–300 o barau ar ddiwedd yr 1970au i **lai na 40 o barau** erbyn 2008, a **llai na 30 o barau** erbyn hyn yn ôl pob tebyg, sy'n cynrychioli llai na 0.1% o gyfanswm y DU.

Mae'r cwtiad aur wedi'i restru'n **Goch** ar *Adar o Bryder Cadwraethol Cymru* oherwydd gostyngiadau mawr yn y poblogaethau sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio ac mae'n dangos **gostyngiad 58% yng Nghymru** dros y 25 mlynedd diwethaf (1997/98 i 2022/23) yn y boblogaeth sy'n gaeafu. Mae niferoedd gaeafu'r DU gyfan wedi gostwng 26% dros yr un cyfnod.

Mae'r cwtiad aur yn rhywogaeth ysglyfaeth gyfreithlon, ond niferoedd cymharol fach a saethir. Mae amcangyfrifon y DU ar gyfer 2016 yn awgrymu bod **870 o adar** wedi'u saethu (Aebischer, 2019). Er bod y lefel hon yn cael ei hystyried yn gynaliadwy ar raddfa'r DU, mae maint bach y boblogaeth sy'n bridio yng Nghymru yn golygu y gallai unrhyw farwolaethau ychwanegol gael effaith anghymesur.

**Felly, mae llywodraeth Cymru yn cynnig tynnu'r cwtiad aur oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru.**

Cynigir ei thynnu oddi ar Atodlen 2 er mwyn:

- lleihau'r posibilrwydd bod hela'n effeithio ar y **boblogaeth fach iawn, sy'n gostwng, sy'n bridio yng Nghymru**;
- cynorthwyo â chadwraeth y rhywogaeth yn unol â'i statws **Coch Adar o Bryder Cadwraethol** Cymru.
- helpu i adfer poblogaethau sy'n gaeafu, sy'n gostwng yn hirdymor yng Nghymru a'r DU; a
- defnyddio dull rhagofalus o ystyried ansicrwyddau sylweddol ynghylch lefelau cynaeafu, statws poblogaeth a phwysau ehangach gan gynnwys newid cynefin ac effeithiau hinsawdd.

Gellir canfod sail resymegol lawn i'r cynnig hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol Cyfoeth Naturiol Cymru yman cyswllt.

Yn y cyfamser, nid yw Natural England na NatureScot yn argymell newid statws Atodlen 2.1 y cwtiad aur yn Lloegr na'r Alban. Nid yw'r gostyngiad yn y cwtiad aur yng Nghymru sydd wedi'i ddisgrifio uchod yn berthnasol yn Lloegr na'r Alban.

**C 5B1: A ydych yn cytuno y dylid tynnu'r cwtiad aur oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 5B2: A ydych yn cytuno na ddylid newid statws Atodlen 2.1 y cwtiad aur, ond ei gadw fel y mae, yn Lloegr a/neu yn yr Alban?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**Darparwch unrhyw ymresymu neu dystiolaeth i ategu eich ymateb**

**C 5B3: A allwch ddarparu tystiolaeth ddiweddarach o nifer y cwtiaid aur a saethir yng Nghymru?**

- Gallaf
- Na allaf

(Rhowch wybodaeth bellach i ategu eich ymateb gan atodi tystiolaeth ategol os dymunwch)

## 6.1 A ydych yn meddwl y dylid tynnu unrhyw rywogaethau eraill oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban?

Mae Atodlen 2.1 ar hyn o bryd yn cynnwys y rhywogaethau adar gwyllt canlynol:

| Rhywogaeth | Nodiadau a newidiadau sydd wedi'u cynnig yn yr ymgynghoriad hwn |
|---|---|
| **Grugiar y coed** | Rhestredig ar gyfer Cymru a Lloegr yn unig. Er bod ei rhestriad Atodlen 2.1 yn golygu y caniateir ei hela yn ddamcaniaethol yng Nghymru a Lloegr, mae'r rhywogaeth wedi bod yn ddiflanedig yn y gwledydd hyn ers canrifoedd. Yn yr Alban (lle ceir poblogaeth wyllt) mae wedi'i thynnu oddi ar Atodlen 2.1. **Os ydych yn ystyried y dylid tynnu'r rhywogaeth hon oddi ar Atodlen 2.1 yng Nghymru a/neu yn Lloegr, defnyddiwch y testun isod i nodi hyn yn y blwch testun yn union o dan y tabl hwn.** |
| **Cwtiar** | Mae llywodraeth Cymru yn cynnig tynnu'r rhywogaeth hon oddi ar Atodlen 2.1 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ni chynigir newidiadau yn Lloegr na'r Alban. |
| **Hwyaden Gopog** | Dim newidiadau wedi'u cynnig |
| **Hwyaden Lwyd** | Dim newidiadau wedi'u cynnig |
| **Hwyaden lygad-aur** | Mae llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU yn cynnig tynnu'r rhywogaeth hon oddi ar Atodlen 2.1 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn ôl eu trefn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae llywodraeth yr Alban yn cynnig estyn ei thymor caeedig yn yr Alban. |
| **Gŵydd Canada** | Dim newidiadau wedi'u cynnig |
| **Gŵydd Dalcenwen Ewropeaidd** | Rhestredig ar gyfer Cymru a Lloegr yn unig. Mae llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU yn cynnig tynnu'r rhywogaeth hon oddi ar Atodlen 2.1 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn ôl eu trefn fel |

| | |
|---|---|
| | rhan o'r ymgynghoriad hwn. |
| **Gŵydd Lwyd** | Dim newidiadau wedi'u cynnig |
| **Gŵydd Droetbinc** | Dim newidiadau wedi'u cynnig |
| **Grugiar Ddu** | Rhestredig yn yr Alban yn unig, lle mae moratoriwm gwirfoddol ar saethu ar waith ar hyn o bryd tra bo lefelau'r boblogaeth yn isel. Ni chynigir newidiadau yn yr ymgynghoriad hwn. Caniateir ei hela o dan Ddeddf Helgig 1831 yng Nghymru a Lloegr yn hytrach na rhestriad Atodlen 2. |
| **Grugiar Goch** | Rhestredig yn yr Alban yn unig. Ni chynigir newidiadau yn yr ymgynghoriad hwn. Caniateir ei hela o dan Ddeddf Helgig 1831 yng Nghymru a Lloegr yn hytrach na rhestriad Atodlen 2. |
| **Hwyaden wyllt** | Dim newidiadau wedi'u cynnig |
| **Iâr Ddŵr** | Dim newidiadau wedi'u cynnig |
| **Petrisen** | Rhestredig ar Atodlen 2.1 yn yr Alban yn unig; ceir cynnig am foratoriwm gwirfoddol ar hela tra bo lefelau poblogaeth yn isel mewn ardaloedd lle na cheir rhyddhau. Ni chynigir newidiadau deddfwriaethol yn yr ymgynghoriad hwn. Caniateir ei hela o dan Ddeddf Helgig 1831 yng Nghymru a Lloegr yn hytrach na rhestriad Atodlen 2.1. |
| **Petrisen Goesgoch** | Rhestredig yn yr Alban yn unig. Ni chynigir newidiadau yn yr ymgynghoriad hwn. Caniateir ei hela o dan y Deddfau Helgig yng Nghymru a Lloegr yn hytrach na rhestriad Atodlen 2. |
| **Ffesant** | Rhestredig yn yr Alban yn unig. Ni chynigir newidiadau yn yr ymgynghoriad hwn. Caniateir ei hela o dan y Deddfau Helgig |

| | |
|---|---|
| | yng Nghymru a Lloegr yn hytrach na rhestriad Atodlen 2. |
| **Hwyaden lostfain** | Yn yr ymgynghoriad hwn, mae llywodraeth Cymru a llywodraeth yr Alban yn cynnig estyn tymor caeedig y rhywogaeth hon yng Nghymru a'r Alban. Mae llywodraeth y DU yn cynnig ei thynnu oddi ar Atodlen 2.1 yng Lloegr. |
| **Cwtiad Aur** | Mae llywodraeth Cymru yn cynnig tynnu'r rhywogaeth hon oddi ar Atodlen 2.1 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ni chynigir newidiadau ar gyfer Lloegr na'r Alban. |
| **Hwyaden bengoch** | Mae llywodraeth Cymru, llywodraeth y DU a llywodraeth yr Alban yn cynnig tynnu'r rhywogaeth hon oddi ar Atodlen 2.1 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. |
| **Grugiar yr Alban** | Rhestredig ar Atodlen 2.1 yn yr Alban yn unig; ceir cynnig am foratoriwm gwirfoddol ar hela tra bo lefelau poblogaeth yn isel. Ni chynigir newidiadau deddfwriaethol yn yr ymgynghoriad hwn. Diflanedig yng Nghymru a Lloegr. |
| **Hwyaden Lydanbig** | Dim newidiadau wedi'u cynnig |
| **Gïach Cyffredin** | Mae llywodraeth Cymru yn cynnig tynnu'r rhywogaeth hon oddi ar Atodlen 2.1 fel y mae'n berthnasol yng Nghymru fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, ac mae llywodraeth y DU a llywodraeth yr Alban yn cynnig estyn ei thymor caeedig yn Lloegr a'r Alban. |
| **Corhwyaden** | Dim newidiadau wedi'u cynnig |
| **Chwiwell** | Dim newidiadau wedi'u cynnig |

| | |
|---|---|
| **Cyffylog** | Mae llywodraeth Cymru, llywodraeth y DU a llywodraeth yr Alban i gyd yn cynnig estyn tymor caeedig y rhywogaeth hon yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ôl eu trefn. |

**Os ydych, rhowch dystiolaeth neu ymresymu i ategu eich ateb yn y blwch isod:**

| |
|---|
| |

## 6.2 A ddylid gwneud diwygiadau eraill (er enghraifft, estyn neu gwtogi tymor caeedig) mewn perthynas ag unrhyw rywogaethau eraill a restrir ar Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban?

**Rhowch dystiolaeth neu ymresymu i ategu eich ateb.**

| |
|---|
| |

## 6.3 A ddylid ***ychwanegu*** unrhyw rywogaethau eraill at Atodlen 2.1 yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban?

**Rhowch dystiolaeth neu ymresymu i ategu eich ateb.**

# 7 Beth sy'n digwydd nesaf?

Dyddiad cau'r ymgynghoriad hwn yw 17/05/2026. Bydd Gweinidogion yn dadansoddi ymatebion a dderbynnir erbyn y dyddiad hwn ac yn eu hystyried wrth drafod polisïau a newidiadau deddfwriaethol i'r dyfodol. Cyhoeddir dadansoddiad cryno o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac ymateb y llywodraeth o fewn 12 wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad gau ar wefan Defra yn www.gov.uk/defra.

Os penderfynir bwrw ymlaen â newidiadau deddfwriaethol, byddwn yn cyflawni'r diwygiadau hyn maes o law.

Yn ystod yr ymgynghoriad, os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost i WildlifeManagementAndCrime@defra.gov.uk neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad isod:

Tîm Troseddau a Rheoli Bywyd Gwyllt,

Defra,

Seacole Building,

2 Marsham Street,

Llundain, SW1P 4DF

Mae llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn am safbwyntiau am y cwestiynau safonol canlynol am yr iaith Gymraeg. Os nad oes gennych farn, gadewch hwy'n wag. Dyma nhw:

Cwestiwn 8.1: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar yr iaith Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg ac ar beidio â thrin Cymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

A ydych yn meddwl y ceir cyfleoedd i hybu unrhyw effeithiau cadarnhaol?

A ydych yn meddwl y ceir cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau anffafriol?

Cwestiwn 8.2: Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid y cynigion yn y ddogfen hon mewn modd sy'n:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio Cymraeg ac ar beidio â thrin Cymraeg yn llai ffafriol na Saesneg; neu

- lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio Cymraeg ac ar beidio â thrin Cymraeg yn llai ffafriol na Saesneg?